



**RHYBUDD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL UWCHRADD  
JOHN SUMMERS, CAMPWS QUEENSFERRY, CHESTER ROAD,  
GLANNAU DYFRDWY, SIR Y FFLINT CH5 1SE A THERFYNU YSGOL  
GYNRADD QUEENSFERRY, CAMPWS QUEENSFERRY, CHESTER  
ROAD, GLANNAU DYFRDWY, SIR Y FFLINT CH5 1SE**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN**, yn unol ag Adranau 28(1)(a) a 29(1)(a) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (OS1999/1671) fel y'u diwygiwyd, bod Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar ôl ymgynghori â'r sawl a oedd yn briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig:-

- Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 3-16 o 1 Medi 2016 ymlaen
- Terfynu Ysgol Gynradd Queensferry ar 31 Awst 2016.

Cynigir sicrhau bod disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn Ysgol Uwchradd John Summers ac sydd am ymuno â darpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) yn cael lle yn y ddarpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) newydd yn y ganolfan arfaethedig ôl-16 newydd yng Nghei Connah neu mewn darpariaeth addas arall a ddewisir gan y myfyrwyr, yn unol â'u dymuniad ac yn amodol ar y ffaith bod lleoedd ar gael.

Bydd disgyblion cynradd sy'n mynychu ysgol gynradd bresennol Queensferry yn cael eu cofrestru yn yr ysgol newydd ag ystod oedran 3-16, a fydd ar yr un safle.

Bydd yr ysgol ag ystod oedran 3-16 yn cael ei rheoli gan un Corff Llywodraethu ac yn cael ei harwain gan un Pennaeth.

Bydd modd i'r ysgol newydd ag ystod oedran 3-16 dderbyn 30 o blant 3-11 a 120 o ddisgyblion 11-16 oed, er mwyn caniatáu capasiti ar gyfer yr ysgolion cynradd eraill yn y cyffiniau sy'n bwydo'r ysgol.

Ymdrinnir â'r trefniadau derbyn yn unol â Pholisi Derbyn yr ALI. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl eu gallu na bandio disgyblion.

Ymdrinnir â threfniadau cludo disgyblion trwy gyfeirio at Bolisi'r ALI ar gyfer Cludiant rhwng yr Ysgol a'r Cartref.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn cyn pen mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion, hynny yw erbyn 26 Gorffennaf 2013. Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Bydd yr Awdurdod yn anfon copiâu o unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â'i sylwadau arnynt, i Lywodraeth Cymru cyn pen mis ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd angen i'r cynigion (oni chânt eu tynnu'n ôl) gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru :-

- (a) Os, cyn pen deufis ar ôl i gopi ohonynt gael ei anfon at Weinidogion Cymru, byddant yn hysbysu bod angen cymeradwyaeth o'r fath arnynt; neu

- (b) Os oes gwrthwynebiadau wedi eu cyflwyno yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Os nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath ar y cynigion, bydd Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel ALI yn penderfynu a ddylid eu gweithredu.

Ian Budd

Y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Dyddiad 28th Mehefin 2013

**NODYN ESBONIADOL:**

Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r rhybudd statudol, ond bwriedir iddo esbonio pwrpas cyffredinol y rhybudd.

Mae Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Addysg Lleol yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry o 1 Medi 2016 ymlaen.

Bydd hynny'n golygu cau'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Bydd darpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) ar gael yn y ganolfan ôl-16 newydd a gaiff ei sefydlu wrth ymyl Ysgol Uwchradd Cei Connah o fis Medi 2016 ymlaen.

Bydd gan yr ysgol ystod oedran ehangach oherwydd bod y ddarpariaeth gynradd a ddarperir gan Ysgol Gynradd Queensferry yn cael ei hymgorffori ynddi, a bydd gan y ddarpariaeth uwchradd y capasiti i ddarparu lleoedd ar gyfer plant o'r ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo Ysgol Uwchradd John Summers fel y mae ar hyn y bryd

Bydd y trefniadau cludo a derbyn yn unol â pholisïau cyfredol Cyngor Sir y Fflint.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynigion gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND (Ffôn: 01352 704011)